EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION DRAFFT UGEINFED CYFARFOD**
**EDUCATION WORKFORCE COUNCIL**

**DYDDIAD:** 20fed Tachwedd 2020

**LLEOLIAD:** MICROSOFT TEAMS

**AELODAU PRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Angela Jardine | Kelly Edwards |
| Berni Tyler | Kevin Pascoe |
| Clare Jones | Paul Croke |
| Eithne Hughes | Rosemary Lait |
| Gwawr Taylor | Steve Drowley |
| Jane Setchfield | |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| David Williams | Ian Roberts |
| Anne Pittman | |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Hayden Llewellyn | Prif Weithredwr |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| Elizabeth Brimble | Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer |
| Lisa Winstone | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Amy Pope | Rheolwr y Swyddfa (Cofnodion) |
| Tyler Baker | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Cofnodion) |

## 1. CROESO A SYLWADAU AGORIADOL

**1.1.** Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*), yr aelodau, y swyddogion a phedwar arsylwr i gyfarfod rhif ugain Cyngor y Gweithlu Addysg.

**1.2.** Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Anne Pittman, David Williams ac Ian Roberts.

**1.3.** Cyflwynodd y Cadeirydd Sam Gallaher, Prif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon (GTCNI), a oedd yn mynychu'r cyfarfod rhwng arsylwr.

**1.4.** Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau fod eitem breifat ar yr agenda; byddai swyddogion ac arsylwyr yn gadael y cyfarfod pan fyddai'n cael ei thrafod. Atgoffwyd yr aelodau o'r papur trafod a oedd wedi'i anfon yn breifat. Cadarnhaodd pob aelod ei fod wedi derbyn yr

adroddiad.

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

**2.1.** Datganodd Steven Drowley ddiddordeb yn eitem CGA 37/20 ar yr agenda sef y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, am mai ef yw Cadeirydd ETS.

**2.2.** Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill o ddiddordeb.

## 3. GOHEBIAETH AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**3.1.** Esboniodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn parhau i gael eu cynnal, er mai'n rhithiol oedd hynny, er enghraifft, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chwaer-gynghorau CGA lle cafwyd cyfarfod dau ddiwrnod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr pob Cyngor. Pwysleisiwyd budd cyfarfod â'r chwaer-gynghorau am eu bod yn caniatáu i bob Cadeirydd a Phrif Weithredwr drafod, rhannu a dysgu o brofiadau eraill. Soniodd Sam Gallaher (*Prif Weithredwr GTCNI*) yn ogystal pa mor werthfawr a chynhyrchiol oedd y cyfarfodydd hyn a'r synergedd agos rhwng y pedwar sefydliad.

**3.2.** Rhannodd y Cadeirydd gyda'r aelodau ddau ddarn ffurfiol o ohebiaeth a dderbyniwyd. Byddai'r ymateb gan y Gweinidog mewn perthynas â fframwaith cyflog y Prif Weithredwr yn cael ei drafod o dan yr eitem breifat ar yr agenda, CGA 47/20. Gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn y Senedd oedd yr ail ohebiaeth, a hynny mewn perthynas â deiseb i ddiddymu CGA a gofyn iddi ymateb yn uniongyrchol i rai pwyntiau a godwyd yn y ddeiseb.

**3.3.** Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod swyddogion yn monitro cynnydd y ddeiseb. Nododd y Prif Weithredwr fod deiseb debyg wedi'i chyflwyno'n flaenorol a oedd wedi denu nifer fach iawn o lofnodion cefnogol yn unig. Mae'r deisebydd wedi bod yn gohebu'n rheolaidd â CGA dros nifer o flynyddoedd. Hysbyswyd yr aelodau bod gan y Cyngor fis i ymateb i'r ddeiseb. Roedd yr aelodau'n fodlon nodi hyn a chadarnhaodd y Cadeirydd y byddai aelodau'r Cyngor yn cael gwybod y diweddaraf ar y ddeiseb.

## 4. COFNODION DRAFFT PEDWERYDD CYFARFOD AR BYMTHEG CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG 10 GORFFENNAF 2020

**4.1.** Cyflwynwyd Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2020 gan y Cadeirydd. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

**4.2.** Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**5. DERBYN HYSBYSIAD O UNRHYW FATERION Y DYMUNAI AELODAU EU CODI MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU 'ER GWYBODAETH' (19-23)**

**5.1.** Ni chodwyd unrhyw faterion.

**6. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR GWEITHREDOL A GYNHALIWYD 25 MEDI 2020**

**6.1.** Cyflwynwyd y cofnodion gan y Prif Weithredwr, a nododd nad oedd unrhyw bwyntiau sylweddol i'w hadrodd. Cadarnhaodd y byddai'r prif eitemau'n cael eu trafod yn rhan o'r cyfarfod. Byddai safbwyntiau a sylwadau'n cael eu croesawu.

**6.2.** Ni chodwyd unrhyw safbwyntiau nac ymholiadau gan yr aelodau.

**7. COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR COFRESTRU A RHEOLEIDDIO A GYNHALIWYD 25 MEDI 2020**

**7.1.** Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio, y cofnodion. Nododd nad oedd unrhyw faterion i'w codi yn rhan o'r cofnodion.

**7.2.** Ni chodwyd unrhyw sylwadau nac ymholiadau gan yr aelodau.

**8. COFNODION DRAFFT Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU 29 MEHEFIN 2020 A CHOFNODION DRAFFT Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU 28 MEDI 2020**

**8.1.** Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Nododd nad oedd unrhyw faterion i'w codi yn rhan o'r cofnodion ond y byddai'n darparu adroddiad llafar o dan eitem CGA 33/20 ar yr agenda'n ddiweddarach yn y cyfarfod.

**8.2.** Ni chodwyd unrhyw sylwadau nac ymholiadau gan yr aelodau.

**9. ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR CGA 32/20**

**9.1.** Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau am barhad busnes yn y sefydliad ac, yng ngoleuni COVID-19, nododd fod busnes craidd yn parhau i gael ei gyflawni. Yn dilyn cyngor gan y Llywodraeth, roedd swyddogion y Cyngor yn dal i weithio o'u cartrefi am nad oedd yn edrych yn debygol y byddai symud yn ôl i'r swyddfa yn digwydd yn fuan. Fel addasiad, byddai'r Cyngor yn diweddaru ei system ffôn yn fuan fel y gellid dargyfeirio galwadau i liniaduron staff.

**9.2.** Cyfeiriodd yr aelodau at ddosbarthiad CGA yn y papur, ac adroddodd fod holiadur diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn a darparu fersiwn diwygiedig i'r Prif Weithredwr. Esboniodd fod gwahaniaeth rhwng barn y Cyngor a barn swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai elfennau hanfodol o'r ymateb i'r holiadur. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi ystyried yr holiadur diwygiedig yn fanwl a'r bwriad oedd cyfarfod gyda swyddogion maes o law. Hysbyswyd yr aelodau bod y swyddog a oedd yn arwain ar yr holiadur wedi gadael i fynd ar secondiad.

**9.3.** Gan gyfeirio at baragraff 11, adroddwyd bod Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi ei bwriadau i ddefnyddio'i grymoedd statudol i adolygu camau gweithredu Llywodraeth Cymru ynghylch dau fater polisi addysg: addysg ddewisol yn y cartref a rheoleiddio ysgolion annibynnol. Roedd cais ffurfiol wedi dod i law gan y Comisiynydd i ddarparu dogfennau i gynorthwyo'r adolygiad. Hysbyswyd yr aelodau bod cyfanswm o 25 o ddogfennau wedi'u darparu mewn ymateb i hyn. Esboniodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael cais arall hefyd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Ymchwiliad Annibynnol i'r Ymchwiliad Cam-drin Plant (Ymchwiliad Ysgolion Preswyl) gan gynnwys mater cofrestru ysgolion annibynnol gyda CGA.

**9.4.** Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr aelodau at baragraff 25, ac adroddodd fod yr Athro Pasi Sahlberg wedi cytuno i draethu'r ddarlith Siarad yn Broffesiynol flynyddol nesaf, a fyddai'n cael ei chynnal ar 26 Ionawr 2021.

**9.5.** Hysbyswyd yr aelodau o faterion eraill, gan gynnwys cais gan Lywodraeth Cymru i CGA ymgymryd ag adolygiad o'r Fforwm Partneriaeth Cyflog ac Amodau Athrawon. Roedd y ffaith bod CGA wedi cael ei ofyn i ymgymryd â'r gwaith hwn, gyda chefnogaeth yr undebau, yn dangos pa mor unigryw oedd CGA fel corff annibynnol. Y dyddiad cyflwyno ar gyfer y gwaith hwnnw oedd 1 Chwefror 2021.

**9.6.** Mewn ymateb i sylw gan aelod, esboniodd y Prif Weithredwr fod y data o'r Gofrestr yn dangos bod CGA yn ychwanegu gwerth at gynorthwywyr cymorth dysgu. At hynny, adroddodd Elizabeth Brimble (*Cyfarwyddwr Cymwysterau, Chofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer*) fod swyddogion wedi gohebu gyda'r undebau gweithwyr cymorth mewn perthynas â data ac wedi cytuno i weithio ar y cyd gyda nhw. Nododd fod cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhan annatod o waith y 3R a oedd wedi'i gwblhau ac a fyddai'n cael ei drafod o dan eitem CGA 35/20 ar yr agenda. Cytunodd Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi*) fod cynorthwywyr cymorth dysgu wedi bod yn ganolog i sawl prosiect, gan gynnwys y Pasbort Dysgu Proffesiynol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod nifer uchel o gynorthwywyr cymorth dysgu'n cyrchu ac yn defnyddio'r PDP.

**9.7.** Ni chafwyd unrhyw ymholiadau pellach ac roedd yr aelodau'n fodlon nodi cynnwys y materion a drafodwyd yn yr adroddiad.

**10. ADOLYGIAD ARIANNOL CHWE MISOL CGA 33/20**

**10.1.** Adroddodd Lisa Winstone (*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) fod y papur yn darparu trosolwg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y cyfnod chwe mis o 1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020**.** Roedd yr adolygiad yn cymharu'r alldro hyd yma o'i gymharu â'r gyllideb fwriadedig. Atgoffwyd aelodau'r Cyngor o'r gyllideb ddrafft a osodwyd ym mis Mawrth, a'r diffyg bwriadedig ar gyfer y flwyddyn, o £327,721. Nodwyd, yn dilyn derbyn y llythyr cynnig grant, bod cyllideb ddiffyg ddiwygiedig wedi'i chyfrifyddu fel £266,823.

**10.2.** Esboniodd fod yr alldro a ragfynegwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar adolygiad gwariant hyd yma, gydag amcangyfrif o weithgarwch bwriadedig ar gyfer gweddill y flwyddyn. Gan gymryd gweithgarwch a ragwelwyd ar gyfer ail hanner y flwyddyn i ystyriaeth, roedd yr alldro a ragfynegwyd yn amcangyfrif gwarged o £616,503, a oedd yn newid sylweddol i'r sefyllfa wreiddiol y cyllidebwyd ar ei chyfer ar ddechrau'r flwyddyn.

**10.3.** Cyfeiriodd Lisa Winstone yr aelodau at incwm ffioedd cofrestru ac amlygodd ostyngiad yn yr incwm ffioedd o'i gymharu â'r llynedd. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau fod y nifer wedi cynyddu ers adroddiadau'r cyfrifon ym mis Hydref a rhagwelwyd y byddai'r niferoedd y cyllidebwyd ar eu cyfer yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nododd Lisa Winstone fod incwm ychwanegol nad oedd wedi'i ragweld ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gan gynnwys, ad-daliadau cyflog ac argostau ar gyfer y Rheolwr Cynllunio a Pholisi a oedd ar secondiad ar hyn o bryd, incwm a dderbyniwyd yn sgil asesiadau AGA a gynhaliwyd ar gyfer CaBan (amcangyfrif o £16,000) ac incwm yn sgil gwaith dadansoddi data a wnaed. Nododd felly mai'r amcangyfrif ar gyfer cyfanswm incwm ar gyfer y flwyddyn gyfan oedd £3,872,086: sef cynnydd o £92,086 o'i gymharu â'r gyllideb.

**10.4.** Roedd esboniad manwl o'r rhesymau dros y gostyngiad sylweddol yn y gwariant a ragfynegwyd wedi'i nodi yn y papur a chafodd ei ddarparu ar lafar hefyd. Roedd y prif resymau'n ymwneud ag effaith COVID-19, yn arbennig mewn perthynas â gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer a chostau teithio a chynhaliaeth. Nododd hefyd fod dau faes allweddol lle cafwyd tanwariant o fewn costau staff: cyflogau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr a chyfraniadau pensiwn cyflogwr, a oedd yn adrodd tanwariant hyd yma oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a oedd wedi'u llenwi ers hynny ond y cyllidebwyd ar eu cyfer o 1 Ebrill 2020.

**10.5.** Diweddarodd Lisa Winstone yr aelodau ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, roedd gan CGA gronfa wrth gefn o £3,410,000 ar hyn o bryd. Yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor ym mis Gorffennaf, roedd £200,000 o hyn wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer y Gronfa Ddata, gan adael balans yn y gronfa gyffredinol wrth gefn o £3,210,000. Petai'r sefyllfa a ragfynegwyd uchod yn cael ei gwireddu, byddai'r gronfa hon wrth gefn yn cynyddu i £3,826,503. Oherwydd

balans iach amcanestynedig y gronfa gyffredinol wrth gefn o hyd, cynigiodd Lisa Winstone y dylai aelodau gymeradwyo cynnydd pellach (o £200,000) i'r gronfa gyffredinol wrth gefn.

**10.6.** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod am risg i enw da, pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod y gwarged a oedd yn "uwch na'r hyn a ragfynegwyd" heb ei gynllunio ac yn gysylltiedig â COVID-19. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn egluro'n glir yr amgylchiadau unigryw tu ôl i'r sefyllfa hon petai cwestiynau'n cael eu codi, fodd bynnag, roedd y gwarged yn dal yn sefyllfa gadarnhaol i'r sefydliad a'i gofrestreion fod ynddi.

**10.7.** Mewn ymateb i ymholiad, ymatebodd Lisa Winstone fod cyllid grant Llywodraeth Cymru a chyllid ffioedd cofrestru yn ddwy broses wahanol. Nodwyd y gallai ffioedd cofrestru gael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf, fodd bynnag, esboniodd fod y Cyngor yn hawlio gwariant gan Lywodraeth Cymru ac o dan brosiect penodol, gellid gofyn am ganiatâd i ymestyn y cyllid i'r flwyddyn ddilynol.

**10.8.** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Prif Weithredwr fod y ffigur ar gyfer y Gronfa Ddata'n realistig ar sail ymchwil i'r farchnad.

**10.9.** Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y sefyllfa ariannol chwe misol, yr alldro a ragfynegwyd a chymeradwywyd y cynnig i gynyddu'r gronfa wrth gefn ar gyfer y Gronfa Ddata £200,000.

## 11. ADOLYGIAD CHWARTEROL 1 GORFFENNAF - 30 MEDI 2020 CGA 34/20

**11.1.** Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodeb o gynnwys y papur a chadarnhaodd fod y Cyngor yn cyflawni ei ofynion craidd. Amlygodd sawl prosiect newydd roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CGA arwain arnynt ar ei rhan, ond nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredol. Roedd y prosiectau'n cynnwys arolwg cenedlaethol o'r gweithlu, gwaith ar ddysgu ôl-16 a gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg.

**11.2.** Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r aelodau nad oedd y Cyngor yn derbyn gwaith ychwanegol yn awtomatig gan Lywodraeth Cymru, gan nodi bod gwaith ystyried a chraffu gofalus cyn derbyn.

**11.3.** Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter.

## 12. ADRODDIAD CYNNYDD SAC, COFRESTRU A SEFYDLU CGA 35/20

**12.1.** Rhoddodd Elizabeth Brimble ddiweddariad i'r aelodau fod niferoedd cofrestreion 1,175 yn is nag yr oeddent yn yr un cyfnod y llynedd a'u sicrhau bod y gyllideb yn cael ei monitro'n agos. Cadarnhawyd bod swyddogion yn hyderus o gyrraedd y gyllideb a osodwyd erbyn

diwedd y flwyddyn ariannol.

**12.2.** Adroddwyd bod swyddogion wedi cyfarfod yn fewnol ac wedi nodi arweinydd prosiect i ddechrau cwmpasu'r posibilrwydd o gaffael cronfa ddata gofrestru newydd. Byddai'r gwaith cwmpasu'n cynnwys nifer o agweddau eraill ar wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys Priodoldeb i Ymarfer, Sefydlu, Hyrwyddo Gyrfaoedd a'r PDP.

**12.3.** Gan gyfeirio at yr orfodaeth i gydnabod cymwysterau proffesiynol, diweddarodd Elizabeth Brimble yr aelodau y byddai Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo grymoedd fel y gallai CGA asesu ceisiadau gan athrawon ysgol ledled y byd fel y gallai eu cymwysterau gael eu cydnabod yng Nghymru, a hynny o 1 Ionawr 2021. Byddai'r grymoedd hyn o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod camau paratoi ar gyfer cydnabod cymwysterau yn fyd-eang ar drac.

**12.4.** Gan gyfeirio at baragraff 12, amlygodd Elizabeth Brimble arolwg CGA o'r gweithlu addysg a fwriadwyd ar gyfer y gwanwyn 2021. Roedd swyddogion yn drafftio'r cynllun gwaith ac wedi dechrau'r gwaith o baratoi'r holiaduron. Cyfeiriwyd yr aelodau at yr arolwg blaenorol a gynhaliwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn 2017, a dywedodd mai CGA fyddai'n dosbarthu arolwg 2021. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod gwaith cydweithredol gyda'r undebau yn mynd rhagddo. Nodwyd y byddai gwaith yn cael ei gynnal gyda Llywodraeth Cymru, UCU a Cholegau Cymru yn benodol mewn perthynas â'r sector Addysg Bellach (AB).

**12.5.** Gan ymateb i ymholiad gan aelod, esboniodd y Prif Weithredwr y byddai'r arolwg yn cael ei rannu yn ôl grŵp cofrestreion. Nododd Elizabeth Brimble fod y cynlluniau gweithredu'n cael eu drafftio er mwyn i holiaduron gael eu dosbarthu yn gynnar yn 2021 a byddai adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn mis Mehefin. Hysbyswyd yr aelodau bod nodiadau atgoffa i ymateb yn allweddol, ac y byddai swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith hwn drwy adolygu niferoedd ymatebion a thargedu grwpiau penodol.

**12.6.** Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad a chadarnhau sefyllfa'r Cyngor wrth ymgymryd â'r arolwg o'r gweithlu.

**13. ADRODDIAD CYNNYDD PRIODOLDEB I YMARFER CGA36/20**

**13.1.** Cyflwynwyd y papur hwn gan Elizabeth Brimble. Rhoddwyd y diweddariad i'r aelodau bod 38 o achosion cyfeirio wedi'u derbyn, ers 1 Ebrill 2020, a oedd 41% yn is nag yn yr un cyfnod yn 2019-20. Roedd y gostyngiad yn y ganran yn unol â'r hyn a welwyd yn GTCS (yr Alban) a TRA (yr Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu), ac yn ganlyniad uniongyrchol i COVID-19. Adroddwyd bod 26 o wrandawiadau o bell wedi'u cwblhau hyd yma, a rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau nad oedd unrhyw ôl-groniad o achosion am fod y gwrandawiadau rhithwir wedi bod yn llwyddiannus. Cadarnhawyd y byddai'r gwrandawiadau'n cael eu rhedeg yn rhithwir tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, a bod gwaith o fonitro'r

gwrandawiadau bob mis yn parhau.

**13.2.** Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraffau 16 a 17 a nodwyd er y bu oedi cychwynnol ar ran Llywodraeth Cymru o safbwynt gwneud cynnydd, bod yr ymgynghoriad ar Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2020 ar gyfer CGA wedi'i lansio ar 7 Medi 2020. Roedd atodiad i'r Gorchymyn wedi'i ychwanegu ddiwedd mis Hydref 2020 o ganlyniad i bryderon a godwyd gan swyddogion CGA mewn perthynas â'r mecanweithiau apelio ar gyfer cofrestreion a CGA fel ei gilydd. O ganlyniad, cafwyd estyniad i'r terfyn amser i 11 Rhagfyr 2020. Cyfeiriodd Elizabeth Brimble at yr ymateb drafft a oedd wedi'i atodi i'r Cyngor ei adolygu a'i gymeradwyo, ac yn arbennig yr ymateb i gwestiwn tri o'r ymateb drafft lle roedd gan CGA anawsterau o hyd o ran yr hawl i apelio gan gynnwys materion gweinyddol a safbwynt y gorchymyn.

**13.3.** Cyflwynodd Elizabeth Brimble y 'Canllaw arfer da: Bod yn agored ac yn onest fel gweithiwr proffesiynol addysg' i aelodau'r Cyngor, gan nodi bod y canllaw wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a bod diwygiadau wedi'u hymgorffori. Roedd y canllaw bellach yn barod i'w gyhoeddi yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

**13.4.** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd Elizabeth Brimble fod y canllaw arfer da a gyflwynwyd yn rhan o waith ataliol CGA o ran safonau, egwyddorion a disgwyliadau a'i fod wedi'i seilio ar waith achosion go iawn. Darparodd sicrwydd mai bwriad y canllawiau oedd darparu cymorth i gofrestreion.

**13.5.** Adroddwyd bod CGA yn cynnal gwiriad blynyddol gyda phob cyflogwr mewn perthynas ag atgyfeirio achosion a nodwyd bod trafodaeth am ofynion statudol i atgyfeirio wedi'u hailadrodd i swyddogion arweiniol Adnoddau Dynol yn yr awdurdodau addysg lleol. Hysbyswyd yr aelodau bod sawl cyfarfod wedi'u trefnu gyda'r swyddogion arweiniol Adnoddau Dynol a'r Penaethiaid Priodoldeb i Ymarfer.

**13.6.** Roedd yr aelodau'n fodlon cefnogi'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a chymeradwyo cyhoeddi'r canllaw arfer da newydd.

**14. Y MARC ANSAWDD AR GYFER GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU CGA 37/20**

**14.1.** Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr, a roddodd ddiweddariad i'r aelodau am y gwaith a wnaed gan CGA, mewn partneriaeth ag ETS Cymru, i weinyddu a datblygu ymhellach y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru am dair blynedd. O dan y contract gyda Llywodraeth Cymru, roedd gofyn i CGA gyflawni isafswm o 15 asesiad Marc Ansawdd y flwyddyn (gan gynnwys adnewyddiadau).

**14.2.** Nodwyd bod gan COVID-19 wedi effeithio ar y cynllun gweithredu i gyflawni o dan y contract. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd cynnydd da wedi'i wneud a chynllun

newydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr aelodau bod cynllun talu/cyllideb wedi'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r contract a'i fod yn cael ei fireinio yng ngoleuni COVID-19.

**14.3.** Nododd y Cadeirydd waith llwyddiannus parhaus y Marc Ansawdd. Yn ogystal, nododd aelod o'r Cyngor fod diddordeb yn y Marc Ansawdd wedi cynyddu, er gwaethaf effaith COVID-19 a'r effaith ddilynol ar nifer yr asesiadau.

**14.4.** Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach.

**15. YMATEB DRAFFT CGA I FIL ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU) LLYWODRAETH CYMRU CGA 38/20**

**15.1.** Rhoddodd Bethan Stacey ddiweddariad i'r aelodau ar ymateb drafft CGA i'r ymgynghoriad. Adroddwyd bod drafft cyntaf o'r ymgynghoriad wedi'i drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a bod sylwadau aelodau wedi'u hymgorffori. Cyfeiriwyd yr aelodau at adran olaf yr ymateb lle roedd CGA yn gofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru am ystod swyddogaethau'r corff a gâi ei sefydlu o ganlyniad i'r Bil.

**15.2.** Trafododd yr aelodau bryderon am amseriadau datblygu gweledigaeth a chenhadaeth y corff newydd, y diffyg meini prawf llwyddiant ac yn y pen draw y gallai hynny arwain at wahanol fodelau ar gyfer staff mewn ysgolion ac AB/AU o ran cyflawni.

**15.3.** Cymeradwyodd yr aelodau'r ymateb drafft ac ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach.

**16. ACHREDU ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON (AGA) CGA 39/20**

**16.1.** Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey, gan amlinellu nifer o bwyntiau allweddol i'r aelodau eu nodi. Hysbyswyd yr aelodau bod dwy bartneriaeth a oedd yn dechrau yn 2020-21 wedi'u hachredu gyda rhai amrywiadau i'r broses achredu sefydledig, oherwydd effaith COVID-19. Gan gyfeirio at baragraffau 5 a 6, wedi i gynlluniau gweithredu a thystiolaeth gael eu cyflwyno gan y partneriaethau hyn, roedd Pwyllgor o'r Bwrdd i fod i ymgymryd ag ymweliad monitro amodau. Oherwydd y pandemig COVID-19, roedd yr ymweliadau wedi'u gohirio tan fis Ionawr 2021 a byddent yn cael eu cynnal yn rhithwir.

**16.2.** Gan gyfeirio at baragraffau 7 a 8, nododd Bethan Stacey fod tair rhaglen newydd wedi'u cyflwyno i'w hachredu, gan bartneriaeth Prifysgol Bangor (CaBan) ac adroddwyd na fyddai Prifysgol Caer yn ailymgeisio am achrediad CGA gyda Phrifysgol Bangor. Yn dilyn gweithredu'r broses achredu, hysbyswyd CaBan ar 28 Hydref 2020 y byddai achrediad yn cael ei ganiatáu (gydag amodau) am gyfnod o bum mlynedd ar gyfer pob un o'r tair

rhaglen. Gellid dod o hyd i'r adroddiadau achredu yn atodiadau A, B & C, er gwybodaeth.

**16.3.** Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 13 lle nodwyd bod monitro'n flaenoriaeth allweddol i CGA a'i fod yn ofyniad fel y nodwyd mewn deddfwriaeth. Nodwyd bod cyfarfod rhwng CGA ac Estyn i drafod trefniadau monitro yn y dyfodol wedi'i drefnu i'w gynnal ddiwedd Tachwedd 2020. Cadarnhawyd y byddai gweithgor yn cael ei sefydlu, i gynnwys aelodau'r Bwrdd Achredu AGA i drafod dull gweithredu a methodoleg monitro unwaith i ddull gweithredu gael ei gytuno rhwng Estyn a CGA.

**16.4.** Adroddwyd bod ffurflenni recriwtio terfynol wedi'u derbyn gan y partneriaethau a chynghorwyd yr aelodau bod CGA yn disgwyl un ffurflen derfynol bellach. Nodwyd bod recriwtio yn ôl y targed yn 89%, gyda niferoedd recriwtio cynradd yn gadarn, ond niferoedd uwchradd yn sylweddol islaw'r targed. Gwahoddodd Bethan Stacey yr aelodau i nodi bod y niferoedd ar y pwynt hwn yn awgrymu na fyddai 30% o'r targed cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyrraedd. Nodwyd bod swyddogion CGA yn disgwyl derbyn ffigyrau dyraniadau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 erbyn diwedd Tachwedd 2020; unwaith byddent yn dod i law, byddai swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith i ddosbarthu'r dyraniadau hyn i'r partneriaethau erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

**16.5.** Cafwyd crynodeb gan Bethan Stacey o baragraffau 25 a 26, a adroddodd am nifer o fentrau roedd y Cyngor yn arwain arnynt ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag AGA. Mewn ymateb i ymholiad, darparodd fanylion am waith roedd y Cyngor yn y broses o'i gwmpasu gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo gweithgareddau a chefnogi meysydd yn ymwneud â'r Gymraeg mewn rhaglenni.

**16.6.** Ymatebodd Bethan Stacey i ymholiad gan aelod gan gadarnhau bod CGA wedi trefnu i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod goblygiadau adroddiad Mick Waters, mewn perthynas â Sefydlu. Nododd fod goblygiadau yn yr adroddiad i CGA, a bod cadarnhad wedi'i gael y byddai ymgynghori'n digwydd gyda rhanddeiliaid allweddol. Nododd y Prif Weithredwr y byddai unrhyw faterion perthnasol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Gweithredol.

**16.7.** Nododd yr aelodau'r adroddiad a'r cynnydd ac ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach.

**17. HYRWYDDO GYRFAOEDD YM MAES ADDYSG CGA 40/20**

**17.1.** Cyfeiriodd Bethan Stacey yr aelodau at baragraff 5 o'r adroddiad, lle nodwyd bod profi ac arddangosiadau allanol ar droed. Adroddwyd bod COVID-19 wedi effeithio ar y dyddiad cyflawni ar gyfer y cynnwys gweledol awthentig i boblogi'r wefan a'r wybodaeth gysylltiedig gan y darparwr, a oedd i fod i ddod i law ganol mis Ebrill 2020 yn wreiddiol. Roedd swyddogion CGA wedi bod mewn cysylltiad â Cowshed i ailddechrau'r broses hon a byddai'r gwaith o gipio'r cynnwys yn digwydd drwy gydol mis Tachwedd a Rhagfyr mewn amrywiol leoliadau addysgol ar draws Cymru. Atgoffodd Bethan Stacey y byddai brand a

llwyfan digidol newydd 'Addysgwyr Cymru' yn cael eu lansio gan y Gweinidog Addysg ddydd Mercher 3 Chwefror 2021.

**17.2.** Tynnodd Bethan Stacey sylw'r aelodau at baragraff 9 lle adroddwyd bod CGA wedi comisiynu Cowshed i ddatblygu a rheoli ymgyrch lansio yn dilyn proses gaffael ffurfiol drwy GwerthwchiGymru. Roedd cyfarfod cychwynnol wedi'i drefnu gyda Cowshed, y byddai cydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn ei fynychu, i gytuno ar raglen o gyfathrebu ac ymgysylltu i ategu gweithredu a defnyddio'r llwyfan digidol newydd. Hysbyswyd yr aelodau am y gwasanaeth eiriolaeth a'i lwyddiant ar y brand a'r wefan. Nododd Bethan Stacey y cynnydd a wnaed dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i'r fforwm recriwtio addysg a bod camau dilynol wedi'u cymryd.

**17.3.** Nodwyd bod swyddogion CGA wedi cynllunio a chynnal digwyddiad 'Panel Addysgu' ar-lein mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a oedd wedi'i fynychu gan bartneriaethau AGA. Adroddodd Bethan Stacey fod swyddogion wedi cyfarfod â rhanddeiliaid o'r sector dysgu seiliedig ar waith ac wedi datblygu cynlluniau gweithgarwch i hyrwyddo gyrfaoedd mewn rolau ym maes dysgu seiliedig ar waith. Byddai'r cynlluniau'n cynnwys ymgyrchoedd a digwyddiadau penodol a oedd yn targedu'r rhai oedd yn gadael gwasanaethau a'r rhai oedd mewn diwydiant. Byddai Cynllun Ymgysylltu ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddatblygu i ddatblygu cymorth ar gyfer grwpiau cofrestreion eraill. Byddai'r Cynllun Ymgysylltu hefyd yn amlinellu cynlluniau penodol ar gyfer recriwtio wedi'i dargedu ym meysydd STEM, grwpiau PDdLlE a myfyrwyr iaith Gymraeg. Nododd y swyddogion awgrym aelod i gynnal ymgyrch ar gyfer cofrestreion ag anableddau. Ar gais Llywodraeth Cymru, i ategu trafodaethau gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghylch recriwtio i AGA yn y Gymraeg, roedd swyddogion CGA wedi paratoi papur (wedi'i atodi er gwybodaeth) yn amlinellu'r gwaith roedd CGA eisoes yn ei wneud neu y gallai ei wneud mewn perthynas â recriwtio i'r gweithlu addysg yng nghyswllt y Gymraeg.

**17.4.** Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad ar y gwaith a wnaed i Lywodraeth Cymru ar gefnogi blaenoriaeth y Gweinidog i amrywio'r gweithlu ysgolion mewn perthynas â chynrychiolaeth o'r gymuned PDdLlE. Nododd Bethan Stacey fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cynllun prosiect CGA ac y byddai swyddogion yn dechrau gwaith i gydweithredu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i symud i Gam 3 y prosiect.

**17.5.** Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r aelodau y byddai arddangosiad o wefan Addysgwyr Cyngor yn cael ei gyflwyno iddynt.

**17.6.** Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

**18. YSGRIFENYDDIAETH I'R IWPRB CGA 41/20**

**18.1.** Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr, a gadarnhaodd fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn y llythyr cylch gwaith ar gyfer cylch cyflog 2020. Adroddwyd bod swyddogion

a oedd yn ymgymryd â rôl yr Ysgrifenyddiaeth wedi cefnogi'r Corff i gwblhau ei ail gylch adolygu cyflog yn llwyddiannus er gwaethaf yr heriau yn gysylltiedig â therfyn amser byr a'r amhariad a gafwyd oherwydd y pandemig COVID-19.

**18.2.** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, trafododd y Prif Weithredwr ganfyddiadau bod gwrthdaro diddordeb i CGA yn sgil gweithredu fel yr Ysgrifenyddiaeth. Nododd ei fod ef a'r Cadeirydd yn monitro'r maes hwn yn ofalus a phetai unrhyw bryderon yn codi, byddai trafodaeth yn dod gerbron y Cyngor.

**EITEMAU ER GWYBODAETH 19-23**

Derbyniodd yr aelodau bapurau 'er gwybodaeth' ar y canlynol:

- ADRODDIAD MONITRO'R IAITH GYMRAEG (CGA 42/20)
- YMATEBION CGA I YMGYNGHORIADAU ALLANOL (CGA 43/20)
- ADRODDIAD CYNNYDD CYLLIDO SEFYDLU (CGA 44/20)
- PASBORT DYSGU PROFFESIYNOL (PDP) (CGA 45/20)
- ADRODDIAD SAFONAU PROFFESIYNOL (CGA 46/20)

**Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat**

**(Cafwyd sesiwn gynllunio yn dilyn y cyfarfod)**